

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	24 MEHEFIN 2021
TEITL:	DIWYGIADAU I'R DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO
PWRPAS:	Cymeradwyo diwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn dilyn newidiadau i Reoliadau CPLIL 2013 a'u diweddaru o Achos Llys Goodwin
ARGYMHELLIAD:	CYMERADWYO'R DIWYGIADAU I'R DATGANIAD STRATEGAETH CYLLIDO
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Yn dilyn diwygiadau i Reoliadau CPLIL 2013 a diweddariad o Achos Llys Goodwin mae'n ofynnol i ni ddiweddaru Datganiad Strategaeth Cyllido'r Gronfa a gymeradwywyd yn wreiddiol gan y Pwyllgor ar 18 Mawrth 2020.

Ymgynghorwyd â Hymans Robertson, actiwari'r Gronfa ac maent wedi awgrymu'r newidiadau canlynol a nodwyd yn adrannau 2, 3 a 4 yr adroddiad hwn. Gellir gweld y newidiadau wedi'u hamlygu yn atodiad 1.

2. Adolygiad cyfraniad

Mae'r newid yn y rheoliad bellach yn caniatáu i'r Gronfa ailgyfrifo cyfraniadau cyflogwyr y tu allan i'r prisiad ffurfiol bob tair blynedd o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Bu newid sylweddol i rwymedigaethau cyflogwr;
- Bu newid sylweddol yng nghyfamod y cyflogwr; neu
- Ar gais y cyflogwr.

Newidiadau i'r DSC

Mae'r DSC bellach yn ystyried newid i gyfraddau cyfrannu rhwng prisiadau dim ond o ganlyniad i newidiadau sylweddol i rwymedigaethau neu gyfamod cyflogwr. Er y byddai'r Gronfa'n ystyried ceisiadau gan gyflogwyr i adolygu cyfraniadau, disgwylir mai'r rheswm dros y cais yw newid materol mewn cyfamod neu ailstrwythuro sylweddol sy'n effeithio ar eu haelodaeth ac o ganlyniad rwymedigaethau yn y Gronfa.

3. Trefniadau ymadael

Mae'r diwygiadau hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran rheoli ymadawiad cyflogwr o'r Gronfa. Wrth adael y Gronfa, lle mae'r cyflogwr mewn diffyg, mae'r opsiynau canlynol nawr ar gael:

- Mae'r cyflogwr yn talu taliad darfyddiad yn llawn a wneir yn unol â rheoliadau;
- Gall y Gronfa gytuno ar amserlen ad-dalu gyda chyflogwr i'w galluogi i ledaenu'r taliad ymadael dros nifer o flynyddoedd; neu
- Mae'r Gronfa a'r cyflogwr yn ymrwmo i Gytundeb Dyled Gohiriedig (CDG) lle gall cyflogwr barhau yn y Gronfa heb unrhyw aelodau gweithredol ond parhau i dalu cyfraniadau eilaidd fel y'u pennir mewn prisiadau ffurfiol. Byddai cyflogwr sy'n gwneud y trefniant hwn cael ei alw'n "gyflogwr gohiriedig".

Er bod llawer o Gronfeydd CPLIL wedi ymrwmo i drefniadau tebyg, mae'r arferion hyn bellach yn cael eu cryfhau gan y diwygiadau i'r rheoliad.

Newidiadau i'r DSC

Er gwaethaf y diweddariadau, ar gyfer cyflogwr sy'n darhod gyda diffyg, y polisi arferol yn y DSC yw'r gofyniad i dalu unrhyw ddyled ar unwaith. Byddai unrhyw amrywiad i ffwrdd o hyn yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r meincnod hwn a byddai angen iddo fod er budd y Gronfa yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r diweddariadau DSC yn caniatáu i'r Gronfa fod yn ystyriol o'r amcanion ehangach a chyllid y cyflogwr wrth ystyried trefniant gadael mwy hyblyg. Er enghraifft, mewn rhai achosion gall dull hyblyg fod yn briodol o hyd lle mae cyfamod y cyflogwr yn wan gan gallai ganiatáu i'r cyflogwr osgoi cronni rhwymedigaeth pellach.

4. Achos Llys Goodwin

Codwyd tribiwnlys Goodwin yn y cynllun Athrawon. Roedd yn honni bod aelodau, neu eu goroeswyr, yn destun gwahaniaethu oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol. Roedd yr honiad oherwydd bod y cynllun Athrawon yn darparu pensiwn goroeswr sy'n llai ffafriol i ŵr gweddwr neu bartner gwrywaidd sydd wedi goroesi, nag ar gyfer gwraig weddw neu bartner benywaidd sydd wedi goroesi aelod benywaidd o'r cynllun. Ar 30 Mehefin 2020, canfu'r Tribiwnlys o blaid yr hawlydd a chytunodd fod camwahaniaethu. Disgwylir i'r canfyddiad a'r cywiriad hwn fod yn berthnasol ar draws pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y CPLIL, ond nid yw hyn yn sicr ac nid yw'r manylion yn hysbys eto. Disgwylir i effaith achos Goodwin, os o gwbl, ar rwymedigaethau'r Gronfa fod yn fach iawn a bydd yn fater gweinyddol i raddau helaeth.

5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor fabwysiaidau'r Datganiad Strategaeth Cyllido diwygiedig.